



Crynodeb Arfarniad Ysgol Betws Gwerful Goch ac Ysgol Bro Elwern 2026-27



Rydym yn adolygu'n gyson fel ysgolion, yn gweithredu, ac yn dysgu er mwyn gwella'n barhaus i sicrhau bod y ddarpariaeth addysg orau bosib yn cael ei gynnig i holl ddisgyblion ein hysgolion. Mae sicrhau amgylchedd sydd yn hybu lles a hapusrwydd pob disgybl yn flaenoriaeth gyson, ac yn rhan allweddol o'n gweledigaeth. Trwy'r broses o hunanarfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgolion, rydym yn adnabod ein blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Arweinyddiaeth

- Mae gan yr ysgolion weledigaeth glir, sydd yn cynnwys llais ein holl rhanddeiliad.
- Mae gan yr ysgolion fframwaith hunan arfarnu rheolaidd, sy'n sicrhau bod adolygu parhaus yn rhan annatod o fywyd yr ysgolion.
- Mae disgygliadau uchel yn cael eu gosod ar draws yr ysgolion, ac mae cyd-weithio effeithiol yn treiddio drwy'r ddwy ysgol o ddydd i ddydd.
- Mae llais y disgybl yn gryf o fewn y ddwy ysgol.
- Mae staff yn arwain cynghorau'r ysgolion ar y cyd hefo'r dysgwyr—Y Cyngor Eco, Cyngor Ysgol, Siarter iaith a'r Cyngor Lles, ac yn cyfarfod yn rheolaidd gan drefnu digwyddiadau yn yr Ysgol a'r gymuned.

Ein Cryfderau

Cwricwlwm

- Mae'r cwricwlwm yn cynnig amrywiaeth o brofiadau cyfoethog, sy'n meithrin disgyblion sy'n ymfalchio yn ein Cymreictod a diwylliant ein hardal leol.
- Rydym yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau er enghraifft Edina Trust i gyfoethogi ein darpariaeth ysgol y goedwig.
- Rydym yn cefnogi datblygiad proffesiynol holl staff yr ysgolion yn gyson, ac yn sicrhau ein bod yn mynychu hyfforddiant amrywiol yn rheolaidd er mwyn datblygu ein cwricwlwm yn barhaus.
- Mae gennym gwricwlwm eang a diddorol, er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, a datblygu medrau ein disgyblion i fod yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, creadigol, egwyddorol ac iach.

Addysgu a dysgu

- Mae gennym gwricwlwm eang, cytbwys a diddorol sydd yn datblygu'r plentyn cyflawn.
- Mae awyrgylch croeswgar a diogel ar draws yr ysgolion ble mae cyfle i ffynnu, mewn awyrgylch o gyd-barch, gwerthfawrogiad a dathlu llwyddiannau ein gilydd.
- Mae blaenoriaeth cyson yn cael ei roi ar ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion ar draws y cwricwlwm, yn unol a'u hoedran a cham cynnydd.

Lles, tegwch a chynhwysiant

- Mae'r ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion gymeryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored gan gynnwys yr ysgol goedwig, chwaraeon amrywiol, ac edrych ar ol tir yr ysgol a'r gymuned.
- Mae gennym strwythurau a phrosesau effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Mae gennym drefniadau effeithiol i asesu a chefnogi lles disgyblion, gan gynnwys arfarnu ein darpariaeth yn flynyddol.



Blaenoriaethau 2025-26



Blaenoriaeth 1- Cyfoethogi'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud rhagor o ddewis- iadau'n annibynnol, gan gynnwys dulliau cofnodi. Sicrhau bod adborth yn adeiladol, ac yn helpu'r disgyblion gyda'r camau nesaf yn eu dysgu.

Rydym wedi buddsoddi mewn darpariaeth er mwyn ehangu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol.

Blaenoriaeth 2- Cyfoethogi geirfa a phatrymau iaith ein disgyblion ymhellach ar lafar.

Gwneud defnydd cyson o gynllun llafaredd Sir Ddinbych, a hybu darllen er mwynhad.

Blaenoriaeth 3- Cyfoethogi'r elfennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y cwricwlwm gan gynnwys meithrin cysylltiadau ag ysgolion byd eang ac ennill y faner werdd eco-ysgol.

Mae Ysgol Betws Gwerful Goch, ac Ysgol Bro Elwern wedi llwyddo i dderbyn y faner werdd, eco-sgolion eleni.

Blaenoriaeth 4- Darparu

cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau mentergarwch a busnes ein disgyblion wedi datblygu'n effeithiol dros y flwyddyn. Mae llawer o gyfleoedd i gydweithio wedi datblygu.



Blaenoriaethau 2026-27

Blaenoriaeth 1 - Cysoni dulliau addysgu effeithiol, a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer pob disgybl.

Bydd cyfle i staff arsylwi gwersi eu gilydd, a rhannu arfer dda. Byddwn yn parhau i ddatblygu cydweithrediad, a chyfleoedd datblygiad proffesiynol ymhellach.

Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academiaidd 2026-27 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r addysg orau bosib ar gyfer ein dysgwyr.

Blaenoriaeth 2- Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd pellach yn eu dysgu.

Byddwn yn parhau i graffu ar lyfrau'n rheolaidd, a chynnal teithiau dysgu ac addysgu. Bydd staff yn marcio ar y cyd, gyda'r disgyblion yn fwy rheolaidd. Byddwn yn adolygu ein polisi adborth gyda'n disgyblion.

Blaenoriaeth 3- Datblygu medrau uwch ddarllen ein disgyblion.

Trefnu ymweliadau rheolaidd i'r llyfrgell lleol, a pharhau i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau darllen.

Blaenoriaeth 5-

Datblygu arweinyddiaeth ddosbarthedig ymhellach.

Mae'r disgyblion a staff wedi elwa o amrywiaeth o gyfleoedd i arwain, gan gynnwys agweddau o'r cwricwlwm, cynllunio a chynnal amrywiaeth o weithgareddau.